Maint Cymru - Pecyn Addysg CA2

Gweithgaredd Rhifedd

Mae tair lefel wahanol o gardiau.
Argraffwch bob set wahanol ar gerdyn lliw gwahanol ac yna gadewch i'r disgyblion ddewis nhw allan ar hap neu rhowch setiau penodol i grwpiau o ddisgyblion.

Lefel hawsaf

Roedd gan fachgen 16 o ffa coffi. Rhoddodd ei fam 12 ychwanegol iddo. Rhoddodd hanner y ffa i'w chwaer. Faint oedd ganddo ar ôl?	Yn y goedwig law gwelodd Eric 33 broga. Roedd 7 ohonynt yn frogaod tomato, roedd 6 ohonynt yn frogaod cyrs a 9 ohonynt yn frogaod aur. Brogaod coed oedd y gweddill. Sawl broga welodd e?	Mae 32 bachgen a 13 merch yn nhîm pêl-droed y pentref. Maent eisiau chwarae pêl-droed 5-bob-ochr. Sawl tîm allan nhw wneud?
Mae Alex yn prynu mango am 33c a chnau am 24c. Mae'n talu â £1. Faint o newid mae'n ei gael?	Mae Tom yn cynilo i brynu golau solar am £36. Mae ganddo £16 ac mae ei ewyrth yn rhoi £6 iddo. Faint mwy o arian sydd angen iddo gynilo?	Mae gan y tsimpansî 8 o aeron. Daeth o hyd i 12 ychwanegol, yna rhoddodd hanner ei aeron i'w frawd. Sawl un ohonynt rhoddodd iddo?
Roedd gan Annett 3 pecyn o hadau. Roedd 4 ym mhob pecyn. Collodd 3 o'r hadau. Faint oedd ganddi ar ôl?	Roedd 15 taten a 13 afocado yn y siop. Fe wnaeth y siopwr eu harddangos mewn grwpiau o 4. Sawl grŵp oedd i gyd?	Tyfodd planhigyn mewn coedwig law 7cm mewn wythnos. Tyfodd 8cm yn yr ail wythnos. Tyfodd 6cm yn y drydedd wythnos. Pa mor dal yw e?
Aeth Fatuma i gasglu pren am 4 o'r gloch. Cerddodd ar hyd yr afon am 1 awr a chymryd y llwybr byr yn ôl am hanner awr. Am faint o'r gloch gyrhaeddodd hi adre?	Yn ysgol y pentref mae'r amser chwarae am 10.30. Fel arfer mae gan y disgyblion chwarter awr ond heddiw maent yn cael ddwywaith hynny! Am faint o'r gloch fyddan nhw'n dychwelyd i'r dosbarth?	Mae mam Pedro yn dweud y gall wahodd 30 o bobl i'w barti. Hyd yn hyn, mae wedi gwahodd 9 bachgen a 12 merch. Faint mwy o blant all e wahodd?

Gweithgaredd Rhifedd

Mae tair lefel wahanol o gardiau.
Argraffwch bob set wahanol ar gerdyn lliw gwahanol ac yna gadewch i'r disgyblion ddewis nhw allan ar hap neu rhowch setiau penodol i grwpiau o ddisgyblion.

Lefel ganolig

Mae yna 128 mwnci. Mae 36 ohonynt yn hela ar y ddaear. Mae 46 ohonynt yn hela yn y coed. Mae'r gweddill yn cysgu yn y coed. Faint o'r mwncïod sy'n cysgu?	Yn y blanhigfa goed yn Uganda roedd 5 rhes o egin-goed. Roedd 8 ym mhob rhes. Mae 7 o'r egin-goed wedi marw. Sawl un sydd ar ôl?	Mae Silvia'n gorfod clymu'r geifr. Mae hi angen 3 darn o raff 1.5 metr o hyd. Mae ganddi ddarn o raff 5 metr o hyd. Beth fydd hyd y darn o'r rhaff sydd dros ben?
Mae teulu yn mynd i deithio 200 milltir i'r ddinas. Yn yr awr gyntaf maent yn teithio 48 milltir. Yn yr ail awr maent yn teithio 65 milltir. Faint pellach sydd angen iddynt fynd?	Mae 175 o goed yn barod i'w plannu y goedwig. Mae 45 ohonynt yn goed goffi, mae 51 yn goed afocado ac mae 38 yn goed mango. Faint o goed eraill sydd yna?	Casglwyd tri bag o fangos o'r goedwig. Maent yn pwyso 400g gyda'i gilydd. Mae un bag yn pwyso 150g. Mae bag arall yn pwyso 140g. Beth yw pwysau'r trydydd bag?
Roedd gan Rogers 1 litr o ddŵr yn ei gan dŵr. Dyfriodd bedair coeden fach gyda 200ml yr un. Sawl mililitr oedd ar ôl yn y can dŵr?	Gadawodd y *landrover* o'r dref i'r pentref yn y goedwig law am 7:30. Dylai fod wedi cymryd 30 munud ond roedd y ffordd yn fwdlyd iawn. Roedd e 15 munud yn hwyr. Am faint o'r gloch gyrhaeddodd e'r pentref?	Aeth Fatuma i gasglu pren am 4 o'r gloch. Cerddodd ar hyd glan yr afon am 50 munud gan gymryd y llwybr byr yn ôl am 25 munud. Am faint o'r gloch gyrhaeddodd hi adref?

Gweithgaredd Rhifedd

Mae tair lefel wahanol o gardiau.
Argraffwch bob set wahanol ar gerdyn lliw gwahanol ac yna gadewch i'r disgyblion ddewis nhw allan ar hap neu rhowch setiau penodol i grwpiau o ddisgyblion.

Lefel uchaf

Mae gan Apollo 1227 o wenyn mêl mewn un cwch gwenyn a 3439 yn y llall. Faint o wenyn mêl sydd ganddo i gyd?	Mae gorila yn pwyso 140kg. Mae eliffant coedwig yn pwyso 3960kg yn fwy. Faint y mae'r eliffant yn ei bwyso?	Cododd un busnes £1237 i Maint Cymru i ddiogelu coedwigoedd glaw ac fe gododd un arall £4329. Faint o arian sydd wedi cael ei godi i gyd?
Mae prosiect Maint Cymru ym Mbale 4101 milltir o Gaerdydd. Mae'r prosiect ym Madagascar 1575 milltir ychwanegol i ffwrdd. Pa mor bell yw Madagascar o Gaerdydd?	Mae Alex yn gwerthu pethau ar stondin i godi arian i'r coedwigoedd glaw. Mae'n gwerthu lego am £9.99, llyfr am 85c a thegan am £1.85. Faint o arian mae'n ei godi i gyd?	Mae Mosi yn dechrau gwylio'r ffilm am 2.45yp. Mae'n para 2½ awr. Am faint o'r gloch y mae'r ffilm yn gorffen?
Mae'r babanod wedi codi £84.74 i ddiogelu'r coedwigoedd glaw. Mae'r plant iau wedi codi £115.25. Beth yw cyfanswm yr arian a godwyd?	Mae Comfort yn cerdded 1.3km i'r siop ac yna 500m i dŷ ei ffrind. Beth yw cyfanswm y pellter y mae hi wedi'i gerdded?	Mae Karl yn prynu bwrdd pren am £1345. Mae'n rhy fawr i'r tŷ felly mae'n ei werthu am £528 o elw. Am faint y mae'n gwerthu'r bwrdd?
Mae gan yr ardd bedrochr ddwy ochr 8m o hyd, un ochr 5m o hyd ac un ochr 15m o hyd. Beth yw perimedr yr ardd?	Mae bag o fananas gwyrdd (*plantains*) yn pwyso 3.2kg ac mae bag o ffa coffi yn pwyso 700g. Beth yw cyfanswm y pwysau?	Yn y bore, roedd y tymheredd yng Nghoedwig Gola yn Sierra Leone yn 23.8°C. Yn ystod y dydd cododd 3.1°C. Beth oedd y tymheredd yn y prynhawn?